CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 3052 (Cy.229)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac maent yn cywiro camgymeriadau i Reoliadau Mêl 2003 O.S. 2003/2243, er mwyn sicrhau bod Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC ynghylch mêl (OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.47) yn cael ei throsi'n gywir.

**2**. Mae arfarniad rheoleiddiol llawn am yr effaith a gaiff y Rheoliadau hyn ar gostau busnes wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 3052 (W.229)

# FOOD, WALES

## The Honey (Wales) (Amendment) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations, which apply in relation to Wales, correct errors in the Honey Regulations 2003 S.I. 2003/2243, to ensure accurate transposition of Council Directive 2001/110/EC concerning honey (OJ No. L10, 12.1.2002, p.47).

**2**. A full regulatory appraisal of the effect that these Regulations will have on the costs of business has been prepared and placed in the library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 3052 (Cy.229)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *1 Tachwedd 2005* |
| *Yn dod i rym* | *11 Tachwedd 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ar ôl rhoi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymghynghori fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 11 Tachwedd 2005.

**Diwygiadau i Reoliadau Mêl 2003**

**2**. Diwygir Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003(**4**) yn unol â rheoliad 3.

**3**.- Yn Atodlen 1, Nodyn 1, yn lle'r geiriau "a 6" rhodder y geiriau-

"6 a 7".

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(**4**) O.S. 2003/3044 (Cy.288).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 3052 (W.229)

# FOOD, WALES

## The Honey (Wales) (Amendment) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *1 November 2005* |
| *Coming into force* | *11 November 2005* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e), 17(1), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(**1**) and now vested in it(**2**), having had regard, in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency, and after consultation both as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(**3**) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety, hereby makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Honey (Wales) (Amendment) Regulations 2005; they apply in relation to Wales and come into force on 11 November 2005.

**Amendments to the Honey Regulations 2003**

**2**. The Honey (Wales) Regulations 2003(**4**) are amended in accordance with regulation 3.

**3**.- In Schedule 1, Note 1, for the words "and 6" substitute-

"6 and 7".

(**1**) 1990 c.16.

(**2**) Functions of the Secretary of State under the Food Safety Act 1990, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(**3**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

(**4**) S.I.2003/3044 (W.288).

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

1 Tachwedd 2005

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

1 November 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 3052 (Cy.229)

# BWYD, CYMRU

Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 3052 (W.229)

# FOOD, WALES

The Honey (Wales) (Amendment) Regulations 2005

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091212-8

**£3.00**

W167/11/05 ON

9 780110 912127